PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL

DYDD MAWRTH, 7 MAWRTH 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Mitchell(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Awan, Chris Davis, Gavin Hill-John a/ac Keith Jones |

69 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr Clark a Williams.

70 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

71 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2017 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

72 : GORFODI GWASANAETHAU CYMDOGAETHAU

Cafodd aelodau adroddiad a roddodd gyfle i'r Pwyllgor ystyried y gweithgareddau gorfodi a gynhaliwyd gan y Gwasanaethau Cymdogaeth ers eu sefydlu ym mis Mehefin 2016. Cafodd Aelodau wybod ar 16 Mehefin 2016 i'r Cabinet gymeradwyo achos busnes Llawn Gwasanaethau Seilwaith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau drwy fodel darparu gwasanaeth mewnol a addaswyd. Rhestrwyd y gwasanaethau yng nghwmpas yr achos busnes yn yr adroddiad.

Rhannwyd y dull mewnol yn ddau wasanaeth newydd; Gwasanaethau Cymdogaeth a Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol. Mae'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau fel Glanhau Strydoedd, Parciau, Addysg a Gorfodi Gwastraff, Gweithrediadau Priffyrdd, Rheoli Asedau Priffordd a Dylunio a Chyflawni Priffyrdd.

Daw gorfodi Gwasanaethau Cymdogaeth â'r gyfres o bwerau gwastraff/amgylchedd, trwyddedu a gorfodi traffig a ddyfarnwyd i'r awdurdod ynghyd. Gofynnwyd i aelodau ganolbwyntio ar weithgareddau gorfodi sy'n berthnasol i dramgwyddau trwyddedu gwastraff/amgylchedd a phriffyrdd yn benodol.

Cafodd Aelodau wybod taw cyfanswm cyllideb 2016/17 yn y Gwasanaethau Cymdogaethau ar gyfer Glanhau a Gorfodi yw £4,758,339. O'r cyfanswm hwn dyrennir £4,024,950 at lanhau a £733,389 i ariannu gweithgareddau gorfodi. Ar hyn o bryd mae gan orfodi yn y Gwasanaethau Cymdogaethau 28 o swyddi cyfwerth ag amser llawn (CALl); bydd hyn yn cynyddu gan saith swydd ychwanegol yn 2017/18. Yn ystod 2017/18 rhoddwyd dyraniad untro o £150,000 i'r Gwasanaethau Cymdogaethau i gefnogi gorfodi. Dyluniwyd ariannu i gefnogi sefydlu 7 swydd CALl yn y Tîm Gorfodi i alluogi timau i weithio prynhawniau ac ar y penwythnos a chyflawni gwasanaethau o safon uchel i drigolion Caerdydd.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion am brif elfennau'r broses orfodi: Addysg Ymwybyddiaeth; Gorfodi ac Atal a Phrosesu a Thrafodion. Cafodd aelodau wybod er mwyn i'r broses profi weithio'n effeithiol fod yn rhaid i bob elfen ategu ei gilydd. Mae mwyafrif y materion gorfodi'n dod o dan y penawdau canlynol:

- Cyflwyno Gwastraff - sicrhau bod gwastraff yn cael ei gyflwyno'n gywir
- Ansawdd yr Amgylchedd Lleol – delio â phob math o sbwriela
- Tipio Anghyfreithlon
- Gorfodi Trwyddedu Priffyrdd – gorfodi Trwyddedau Priffyrdd

Mae dau dîm yn y Gwasanaethau Cymdogaethau a all gyflwyno dirwyon ar gyfer tramgwyddau trwyddedu amgylcheddol a phriffyrdd. Mae'r Tîm AALI yn cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) ar gyfer gwastraff cyffredinol, baw cŵn a thramgwyddau priffordd. Mae'r Tîm Gwastraff yn gorfodi Hysbysiadau Cosb Benodedig yn bennaf ar gyfer cyflwyno gwastraff yn anghywir.

Cafodd aelodau wybod bod yr awdurdod bob amser yn ceisio gwella effeithlonrwydd ar draws ei wasanaethau. Mae'r Gwasanaethau Cymdogaeth yn ystyried sut y gall wella gorfodi drwy ddatblygu meysydd gwaith partneriaeth; digideiddio; gwisg ac offer ac ati. Rhoddodd yr adroddiad fanylion pellach ar bob un o'r mesurau hyn i Aelodau'r Pwyllgor.

O ran canlyniadau, cafodd Aelodau wybod ers creu'r Gwasanaethau Cymdogaethau y cafwyd ffocws cynyddol ar weithgareddau gorfodi. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gynyddu nifer y HCBau a gyflwynir ar draws ystod o droseddau sbwriela, y nodwyd manylion arnynt yn Nhabl 1 yr adroddiad. Mae'r cynnydd hwn yn ei dro wedi arwain at gynnydd mewn incwm. Cafodd yr incwm hefyd ei ddangos yn Nhabl 2 yr adroddiad, tra bod Tabl 3 yn dangos cyfanswm bob blwyddyn Gweithgareddau Addysg a Gorfodi o 2014/15 i 2016/17.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Bob Derbyshire, sef Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd; Andrew Gregory, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a Matt Wakelam, Rheolwr Gweithredol i'r cyfarfod. Gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad byr ar Orfodi Gwasanaethau Cymdogaethau.

Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad pellach neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau beth oedd y targed amser o ran ymateb i dipio anghyfreithlon. Dywedodd swyddogion taw'r amser ymateb oedd 5 diwrnod gwaith a bod 98% o dipio anghyfreithlon yn cael ei waredu o fewn 5 diwrnod. Roedd tipio anghyfreithlon yn broblem genedlaethol ac roedd y gwasanaeth am gynyddu nifer yr erlyniadau. Cafodd Aelodau wybod y credid bod Llywodraeth Cymru'n ystyried caniatáu awdurdodau i gyflwyno HCBau ar gyfer tipio anghyfreithlon lefel isel. Roedd y gwasanaeth hefyd yn symud at weithio'n gudd a gwella addysg a gorfodi. Credai swyddogion ei bod yn anodd datrys y broblem tipio anghyfreithlon drwy'r llysoedd.

- Nododd Aelod yn ystod gwaith 'glanhau dwfn' yn ddiweddar yn ei ward nas cliriwyd ardal tir preifat. Gofynnodd Aelodau sut y delir ag ardaloedd o'r fath.

Dywedodd Swyddogion na fyddai'r Timau Glanhau Strydoedd yn clirio tir preifat gan y byddent yn tresmasu a bod hefyd rhwymedigaethau yswiriant i'w hystyried. Lle nodir problemau ar dir preifat, gofynnir i Swyddogion Gorfodi weithredu. Dywedodd yr Aelod fod y darn o dir dan sylw yn wely blodau ar dir agored. Cydnabu Swyddogion fod aelodau'r cyhoedd yn meddwl bod y Cyngor yn gyfrifol am bob darn o dir.

- Ceisiai Aelodau eglurhad ar bolisi'r Cyngor ar dipio anghyfreithlon mewn lonydd. Cafodd Aelodau wybod bod yr awdurdod yn symud i ffwrdd o lanhau ymatebol mewn lonydd a thuag at lanhau cylchol. Credai Swyddogion, mewn lonydd wedi'u gatio, lle gosodwyd gatiau i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol a bod tipio anghyfreithlon yn digwydd, roedd yn anodd credu taw pobl o'r tu allan i'r ardal oedd yn gyfrifol. Hoffai'r awdurdod annog trigolion i gymryd perchnogaeth o'r lonydd a rhoi gwybod am dipio anghyfreithlon. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod nifer o lonydd yn dir preifat a thaw'r trigolion oedd yn gyfrifol am eu glanhau.

- Gofynnwyd i swyddogion roi manylion am symud at fasnacholi'r gwasanaeth yn fwy. Mynegodd swyddogion y farn ei bod yn hanfodol i'r gwasanaeth ddeall yn well ei berfformiad, costau a lefelau tebygol o incwm cyn cytuno i gytundebau masnachol. Cafodd Aelodau wybod ei bod yn annhebygol y byddai'r Gwasanaethau Cymdogaethau fyth yn hunan-ariannu'n gyfan gwbl ond eu bod yn symud tua'r cyfeiriad hwnnw. At hynny, nes i agweddau fel digideiddio gael eu cyflawni ni fyddai'r gwasanaeth mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau i randdeiliaid a phartneriaid.

- O ran pwerau gorfodi, cafodd yr Aelodau wybod yr arferai nifer o bwerau gorfodi fod dan fantell y Pwyllgor Cynllunio. Ond, rhoddwyd dirprwyaeth swyddog ar waith. Adeiladwyd prosesau ac fe'u rhoddwyd ar waith ac mae'r gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gynyddu gweithgarwch gorfodi. Roedd cyllideb 2016/17 yn cynnwys £150,000 o gyllid ychwanegol a ddefnyddiwyd i recriwtio swyddogion gorfodi ychwanegol. Gwaredid y swm 'untro' hwn o gyllidebau yn y dyfodol ac roedd disgwyliad y byddai'r swyddi hyn yn eu hariannu eu hunain o incwm cynyddol.

- Cododd Aelodau bryderon y câi'r awdurdod ei weld yn 'rhy llym' wrth ddefnyddio ei bwerau gorfodi. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y farn gyhoeddus o blaid cyflwyno cosbau ar gyfer troseddau fel sbwriela. Rhoddodd swyddogion wybod nad oedd yr awdurdod am gynyddu incwm drwy gynyddu gorfodi; roedd yr awdurdod am wella'r amgylchedd i bawb.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 73 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CYFARWYDDIAETH GWEITHREDIADAU'R DDINAS A GWASANAETHAU CYDWEITHREDOL AR GYFER CHWARTER 3 2016/17

Cafodd y Pwyllgor adroddiadau Gweithrediadau'r Ddinas a'r Gwasanaethau Masnachol a Chydweithredol ar gyfer Chwarter 3 2016/17. Gofynnwyd i Aelodau ystyried yr adroddiadau a rhoi arsylwadau i gefnogi ystyriaeth y Cabinet o Adroddiad Cyflawni a Pherfformiad Chwarter 3 2016/17.

Atodwyd Adroddiadau Perfformiad Chwarter 3 Gweithrediadau'r Ddinas a Datblygu Economaidd yn Atodiad 1 ac Atodiad 2. Archwiliodd yr adroddiadau monitro nifer o feysydd perfformio gan gynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn Dangosyddion Perfformiad, cynnydd a wnaed yn erbyn Blaenoriaethau Corfforaethol a Blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth a chynnydd a wnaed yn erbyn Heriau Allweddol a Chyflawniadau Allweddol.

Rhoddodd Atodiad 3 i'r adroddiad ystod o wybodaeth ledled y Cyngor am berfformiad a fydd yn helpu'r Pwyllgor i feincnodi yn erbyn perfformiad y Cyngor yn gyffredinol a gwasanaethau eraill. Roedd y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth am gysylltiad â chwsmeriaid, costau staff, gwybodaeth tracio ariannol, lefelau absenoldeb salwch a DPP.

Cafodd nifer o arsylwadau allweddol a nodwyd o adroddiad perfformiad pob gwasanaeth eu cynnwys yn yr adroddiad.

<u>Gweithrediadau'r Ddinas – yr Amgylchedd</u>

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad byr. Gofynnwyd i Aelodau wneud sylw, gofyn am eglurhad neu godi cwestiwn ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am fanylion nifer y cyflogeion sydd wedi gadael yr awdurdod o ganlyniad i absenoldeb salwch hirdymor. Dywedodd swyddogion er bod y mater o absenoldeb salwch hirdymor yn cael ei ddelio ag ef, a bod y ffigurau y gofynnwyd amdanynt ar gael, ni allent roi manylion cywir yn y cyfarfod. Rhoddwyd cyfrifoldeb dros absenoldeb salwch i reolwyr lefel ganolig ac arweinwyr tîm.

- Cadarnhaodd swyddogion fod gan yr awdurdod gynllun hirdymor gwydn ar waith i reoli digwyddiad eira trwm.

<u>Gweithrediadau'r Ddinas – Cynllunio Strategol, Priffyrdd a Thraffig a Thrafnidiaeth</u>

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad byr. Gofynnwyd i Aelodau wneud sylw, gofyn am eglurhad neu godi cwestiwn ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd aelodau am fanylion am sylwadau'r awdurdod ar Awdurdod Trafnidiaeth Dinas-Ranbarth Caerdydd (CCRTA) a phryd y byddai'r awdurdod yn dechrau cwrdd yn rheolaidd. Cafodd Aelodau wybod taw cynrychiolydd yr awdurdod ar yr awdurdod cysgodol yw'r Cynghorydd Patel. Bydd yr awdurdod cysgodol yn ffurfioli'r strwythur llywodraethu. Dywedodd y Cynghorydd Patel y bydd yn cyflwyno achos Caerdydd dros ateb rheilffordd-ysgafn yn glir, gan gynnwys cysylltiad rhwng Radur a Coryton a fydd yn cwblhau 'llinell gylchol'. Mae gan bob awdurdod restr o gynlluniau ond byddai datrysiad rheilffordd ysgafn yn llawer mwy hyblyg.

<u>Masnachol a Chydweithredu</u>

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad byr. Gofynnwyd i Aelodau wneud sylw, gofyn am eglurhad neu godi cwestiwn ynghylch y wybodaeth a gyflwynwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor swyddogion ar ganlyniadau dangosydd perfformiad y gwasanaeth am gyfanswm y gwastraff a ailgylchwyd, yn arbennig pan gymherir y ffigur hwn â’r canlyniadau a gyflawnwyd gan awdurdodau cymharol dinasoedd craidd.

- Cadarnhaodd swyddogion fod y ffigur ailgylchu/ail-ddefnyddio’n amrywio drwy chwarteri 1, 2, 3 a 4. Disgwylir adegau prysur ar adegau gwahanol o’r flwyddyn fel yn y gwanwyn. Nodir yr adegau hyn a rhoddir adnoddau ychwanegol ar waith i’w rheoli.

PENDERFYNWYD – y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet ar ran y Pwyllgor i gyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

74 : PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - ADRODDIAD DRAFFT BLYNYDDOL 2016/17

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol 2016/17. Amlinellodd yr adroddiad brif weithgareddau’r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn dan y penawdau canlynol: ymholiadau; Craffu Cyn Penderfynu; Monitro Perfformiad; Gwybodaeth Frîffio; a Cyfarfodydd Galw i Mewn. Daeth yr adroddiad i ben drwy gyflwyno pynciau a graffwyd gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a’r rhai a nodwyd fel blaenoriaethau addas i’w craffu arnynt yn y dyfodol.

Gwahoddodd y Prif Swyddog Craffu sylwadau ar yr adroddiad. Derbyniodd a chymeradwyodd Aelodau gynnwys yr adroddiad.

CYTUNWYD – Y dylid cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Amgylcheddol ar gyfer 2016/17 a’i gyflwyno i’r Cyngor.

75 : ADRODDIAD DRAFFT GORCHWYL A GORFFEN Y PWYLLGOR CRAFFU AMGYLCHEDDOL - RHEOLI CYLLID ADRAN 106 AR GYFER DATBLYGU PROJECTAU CYMUNEDOL - I DDILYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog Craffu’r Adroddiad Ymholiad Gorchwyl a Gorffen drafft ar Reoli Cyllid Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol. Cafodd y Pwyllgor drosolwg o ganfyddiadau allweddol yr ymholiad. Cafodd aelodau hefyd frîff ar y broses o werthuso projectau cymunedol a ariannwyd gan gyfraniadau Adran 106.

CYTUNWYD – Yn amodol ar ddiwygiad, cymeradwyo’r Adroddiad Ymholiad Gorchwyl a Gorffen ar Reoli Cyllid Adran 106 ar gyfer Datblygu Projectau Cymunedol.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 pm